**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2020/21 £ | nifer | | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 367,210 | 6 | | 367,210 | 6 | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 283,430 | 21 | * | 145,310 | 17 | 138,120 | 4 | Gwireddwyd 17 o gynlluniau a bu llithriad ar 4 cynllun sef *Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach* gwerth £20k, *Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dŵr* £12.5k, *Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* £82.5k a *Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn yr Adran Amgylchedd* £23.12k. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 256,840 | 12 | | 256,840 | 12 | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 170,730 | 11 | | 150,730 | 10 | 20,000 | 1 | Gwireddwyd 10 cynllun a bu llithriad ar y cynllun *Cynhyrchu incwm drwy atal twyll* sydd gyda targed gwerth £20k yn 2020/21. |
| Economi a Chymuned | 183,410 | 18 | * | 95,910 | 14 | 87,500 | 4 | Mae amrediad o gynlluniau'r Adran wedi eu gwireddu. O'r 4 sy'n weddill, mae 3 yn symud yn eu blaen sef 2 gynllun sy'n ymwneud â pharcio (*Cysoni ffioedd i safleoedd newydd ac Adolygu ffioedd a threfniadau yn Storiel* ) a *Dileu 1 swydd o Wasanaeth Twristiaeth a Marchnata.* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 583,770 | 12 | * | 179,410 | 6 | 404,360 | 6 | Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni rhai cynlluniau arbedion gan gynnwys 2 gynllun sef *Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr gofal dydd newydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog* (£75k) ac *Adolygu pecynnau anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen* (£75k). Yn ogystal mae yna 4 cynllun lle bu oediad sef *Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo* (£15k), *Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion* (£40k), *Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus* (£150k) ac *Ail strwythuro y Gwasanaeth Busnes a lleihau ymhellach y gefnogaeth a roddir i dimau rheng flaen* (£49.36k). |

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2020/21<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni<br>£ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 91,250 | *4* | 91,250 | *4* | - | | Bu i Cabinet 26 Ionawr 2021 gymeradwyo dileu targed arbedion 2020/21 cynllun *Dechrau i'r Diwedd* gwerth £318k. Mae gweddill y cynlluniau arbedion wedi eu gwireddu. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 729,440 | *22 ** | 198,690 | *9* | 530,750 | *13* | Mae risgiau o gyflawni arbedion 3 cynllun sef *Canolfannau Ailgylchu - newid trefniadau*, *Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* a chynllun *Cau Cilgwyn*. Mae'r Adran yn edrych i weld os yw'r cynlluniau am wireddu'r arbedion yn llawn neu'n rhannol. Bu oediad ar 10 cynllun sydd werth cyfanswm o £380,750, rhain i weld yn symud yn eu blaen ac nid yw'r Adran yn rhagweld problemau gwireddu. |
| Ymgynghoriaeth | 89,170 | *5* | 89,170 | *5* | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 35,860 | *10 ** | 29,640 | *9* | 6,220 | *1* | Bu oediad mewn gwireddu arbedion y cynllun *Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol etholiadau a chyfreithiol.* |
| Tai ac Eiddo | 205,080 | *8* | 180,080 | *7* | 25,000 | *1* | Bu llithriad yn rhaglen y cynllun *Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol,* ond mae'r cynllun yn symud yn ei flaen ac nid yw'r Adran yn rhagweld problem gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **2,996,190** | ***129*** | **1,784,240** | ***99*** | **1,211,950** | ***30*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 60% o gynlluniau arbedion 2020/21 eisoes wedi eu gwireddu.** |

** cynnwys cynllun/cynlluniau wedi gwireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i wireddu yn llawn.*